

Cylchlythyr Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

Mis Mawrth 2023



BPRh yn fyr

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys (BPRh) yn dod â nifer o gynrychiolwyr gwasanaethau cyhoeddus ynghyd, megis Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Cyngor Sir Powys a'r Trydydd Sector. Mae'r bwrdd yn cwrdd bob dau fis ac yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli buddiannau dinasyddion a gofalmwr di-dâl.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am Nawdd Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru i gefnogi amrywiaeth eang o fentrau megis Cysylltwyr Cymunedol, Gwasanaeth Cyfeillio Powys a Gofalmwr Ifanc. .

I ddysgu mwy am y BPRh, edrychwch ar: www.powysrpb.org

Ymgyrch Wrando Dementia



Preswylwyr lleol yn dyfod ynghyd gydag wasanaethau, grwpiau cymunedol a elusennau yng nghanolfan hamdden Rhaeadr.

Mae'r ymgyrch a lansiwyd yn Rhaeadr yn dod â phreswylwyr lleol ynghyd i lunio sut mae pobl leol â dementia yn derbyn gofal.

Pobl leol sydd yng nghanol y sgwrs, ochr yn ochr â chefnogaeth oddi wrth Gwelliant Cymru, Citizens UK, Bwrdd Addysgu Iechyd Powys, Cyngor Sir Powys a llawer o sefydliadau'r sector gwirfoddol.

Gall preswylwyr Rhaeadr a'r ardaloedd amgylchynol gymryd rhan drwy ddyfod yn Wirfoddolwyr Gwrandio Rhagweithiol a chwblhau'r holiadur hwn. I ddarganfod rhagor ewch i www.dementiamatterspowys.org.uk

Neges gan y Cadeirydd



Mae Cadeirydd yr RPB, Kirsty, yn rhoi ei chrynodeb o newyddion y Bwrdd. Yn ei neges mae'n amlinellu gwaith allweddol a heriau'r bwrdd yn y misoedd nesaf gan gynnwys adolygu'r Strategaeth Iechyd a Gofal.

Gallwch ei weld ar-lein yma

Canolfan Deuluol ar agor

Agorwyd Canolfan Integredig i Deuluoedd y Trallwng yn swyddogol fis diwethaf gan Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Julie Morgan.

TAgorodd y ganolfan ei drysu ym mis Hydref y llynedd fel "siop un stop" i ddarparu gwasanaethau chymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'n darparu gweithgareddau fel grwpiau rheini a phlant bach, tylino babi, gwybodaeth a chynghor, Hyfforddiant Rhianta y Blynnyddoedd Anhygoel,

Rhaglenni Hyfforddi, cynghor iechyd, cymorth i'r teulu a chwnsela. Hon yw'r ail Ganolfan Integredig i'r Teulu i'w hagor yn y sir ac mae'n rhan o uchelgais ehangach i ddatblygu cyfres o safleoedd tebyg ledled Powys.



a staff yn ymgyrchu â phlant Agored n cwrdd â phlant Drws

Gallwch ddarllen y stori yma

Ap Iechyd a Llesiant Cymru



Os ydych chi'n gweithio yn y gymuned gydag aelodau o'r cyhoedd gallech chi gael y wybodaeth ddiweddaraf ar flaenau eich bysedd bellach.

Mae Ap newydd Iechyd a Llesiant Cymru yn darparu mynediad ar-lein i wybodaeth am amrywiaeth eang o sefydliadau, grwpiau a gwasanaethau lleol. Daw'r wybodaeth at ei gilydd drwy Dewis Cymru, Infoengine a chyfeiriaduron adnoddau Galw Iechyd Cymru.

Mae'r Ap newydd wedi ei anelu at staff o amrywiaeth o sefydliadau a dim ond ar gyfeiriadau e-bost defnyddwyr a gofrestrwyd y mae ar gael.

I lawrlwytho'r Ap, ewch i'r siop Apiau neu Google Play a chwilio am 'Iechyd a Llesiant Cymru'. Ar ôl i chi gael yr Ap, peidiwch ag anghofio defnyddio eich cyfeiriad e-bost gwaith i gofrestru.

Os oes angen help arnoch i gyrraedd yr ap, anfonwch e bost

help@dewis.wales

**CADW
MEWN
CYSYLLTIAD**

Eisiau gwybod mwy am sut mae'r BPRh yn gweithio a'r hyn mae'n ei wneud yn eich ardal chi?



prpb@powys.gov.uk



@PowysRPB



www.powysrpb.org

LLAIS Y GOFALWYR

Mae gofalwyr di dâl yn chwarae rôl hanfodol wrth ofalu ar ôl rhai o ddinasyddion mwyaf bregus Powys. Mae llawer o waith yn mynd rhagddo yn lleol ac yn genedlaethol i gydnabod a chefnogi gofalwyr di dâl, sy'n ifanc ac yn oedolion, i fyw eu bywyd gorau wrth ofalu ar ôl ffrind neu aelod o'r teulu.

Cafodd dwy brif flaenoriaeth eu dynodi gan ofalwyr Powys. Sef:



Codi proffil gofalwyr ym Mhowys

Darparu egwyl seibiant i'w cefnogi nhw i barhau i ofalu

Mae'r elusen leol CREDU, yn arwain y ddau brosiect i fynd i'r afael â'r ddwy flaenoriaeth, gydag arian wedi ei ddynodi gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, RPB Powys. Mae'r prosiect Codi Ymwybyddiaeth wedi gwella'r ffordd mae gofalwyr cudd yn cael eu hadnabod a'u cefnogi ym Mhowys. I gydweddu â'r gwaith hwn, mae Prosiect Cyd gynhyrchu Seibiant wedi galluogi cyfleoedd seibiant creadigol a leolir yn y gymuned yn y sir.

Mae gofalwyr sydd wedi bod yn rhan o'r prosiectau hyn yn rhannu eu straeon gyda ni. Mae Mandy, mam sy'n gofalu am ei merch sydd ag anghenion cymhleth, yn siarad am y cryfder mae hi wedi ei ganfod fel gofalwr a'r cymorth a dderbyniodd oddi wrth y gymuned.



Ffion

Gallwch chi hefyd glywed gan Ffion, gofalwr ifanc sy'n angerddol dros godi'r plattform i bobl ifanc sy'n gofalu ar ôl rhywun annwyl. Mae Ffion wedi elwa llawer wrth gysylltu â gofalwyr ifanc eraill. Mae hi'n parhau i siarad allan a chodi ymwybyddiaeth am faterion y mae hi ei hun ac eraill yn eu hwynebu.

I ganfod rhagor am y prosiectau a'r cymorth i ofalwyr ym Mhowys ewch i www.carers.cymru



Mandy

credu
connecting carers in Powys
cysylltu gofalwyr ym Mhowys

Bwrdd Partneriaeth
Ranbarthol Powys
Iechyd a Gofal
Cymdeithasol



Powys Regional
Partnership Board
Health and
Social Care



Llywodraeth Cymru
Welsh Government